# ‘Ble mae Barddoniaeth Rhyfel?’
## Gan Nerys Williams

*Darlith Gomisiwn a draddodwyd yn ystod Estyn yn Ddistaw, dydd o fyfyrio ar farddoniaeth rhyfel a heddwch yng Nghymru. Trefnwyd gan Llenyddiaeth Cymru gyda chefnogaeth gan Raglen Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf Llywodraeth Cymru, Cymru’n Cofio Wales Remembers 1914-1918.*

Sut mae lleoli barddoniaeth rhyfel? Ble’n union y mae barddoniaeth rhyfel yn ‘byw’, a ble mae dod o hyd iddi? Wrth geisio ateb y cwestiynau hyn, efallai y byddem am ystyried y berthynas rhwng barddoniaeth rhyfel a chysyniadau o ‘gartref’, a sut y mae barddoniaeth rhyfel yn gallu ail-greu’r cysyniadau hynny. Cwestiwn mwy sylfaenol, o bosibl, yw sut y mae rhyfel yn effeithio ar ein tirlun dyddiol, a sut y mae hynny’n newid ein hargraffiadau o gartref? Wrth geisio rhoi sylw i’r elfennau hyn mewn barddoniaeth rhyfel, gan edrych yn benodol ar waith beirdd Cymru, byddaf yn dangos y newid a fu rhwng barddoniaeth ‘milwyr’ neu farddoniaeth y Rhyfel Mawr, a barddoniaeth rhyfel fwy diweddar, sy’n gysylltiedig â’r gwrthdaro yn Irac ac Affganistan.

Ond i ddechrau, hoffwn geisio rhoi safbwynt ar y cwestiwn mwy dyrys hwnnw, sef ble mae dod o hyd i ryfel ei hun, a’i effaith ar ein tirlun dyddiol. Gwnaf hynny drwy droi at gelf weledol o orllewin Cymru. Mae rhai o luniau olaf Osi Rhys Osmond yn codi cwestiynau cymhleth am sut y mae rhyfel yn ymwthio ar gysyniadau o gartref. Mae cyfres o’r enw *Hawk and Helicopter* yn dangos inni sut y mae hofrenyddion Chinook yn meddiannu’r awyr uwchben Bae Ceredigion. Yn lluniau Osmond, mae hebogiaid ac adar môr yn rhannu’r awyr â’r peiriannau milwrol hyn. Mae catalog yr arddangosfa wreiddiol yn *Oriel Mission,* Abertawe, yn disgrifio’r gyfres o luniau fel ‘cofnod drwy lunio, arlunio a thestun o brofiadau, meddyliau ac arsylwadau’r artist’*, a’r cyfan wedi’i greu ‘wrth wylio ac arlunio’r machlud o fan uchel yn wynebu’r de-orllewin, uwchben Bae Ceredigion’*. Mae nodiadau’r arddangosfa yn ein hatgoffa bod y Bae yn Ardal Gadwraeth Arbennig, yn ogystal â bod yn faes profi milwrol ar ffin yr aber. [1]

Un o'r lluniau mwyaf ysgytwol yn y gyfres yw llun 'Chinook' Osmond. Mae'r gwaith hwn yn darlunio haul isel a golygfa o'r môr sy'n cael ei llethu gan ddarlun graffig o hofrennydd milwrol ar ogwydd. Mae'r hofrennydd yn hedfan yn gyfochrog ag aderyn môr. Ar 16 Tachwedd 2017, yn y Senedd yng Nghaerdydd, cyflwynwyd y llun yn rhodd gan bobl Cymru i Senedd Fflandrys. Roedd hyn ar ôl i Osmond farw. Yn ei nodiadau ar gyfer yr arddangosfa wreiddiol, disgrifiodd Osmond y broses o fyfyrio am dirlun sydd o dan gysgod ymarferion y Weinyddiaeth Amddiffyn ym Mhentywyn ac Aberborth. Roedd dal bywyd gwyllt Bae Ceredigion ar gynfas yn gofyn am arsylwi dwys. Byddai'r profion milwrol yn yr awyr yn aml yn tarfu ar y cyfnodau o fyfyrio:

> Mae heidiau anferth o adar hirgoes, adar mudol ac adar preswyl yn ymgynnull, yn clwydo, yn bwydo, yn ymdrwsio, yn hela ac yn bridio. Mae llwynogod yn prowla'r arfordiroedd a chwningod yn diflannu i'w cwningaroedd ar ben y clogwyni. Mae ysgyfarnogod gwyllt yn torsythu yn y meysydd. Mae mulfrain yn calchu eu creigiau clwydo coch â phinc drewllyd. Mae cigfrain yn crawcian ac yn gwneud campau tywyll yn yr awyr. Mae'r afonydd yn byrlymu wrth i'r llanw a'r trai ufuddhau i'r lleuad. Dyma normalrwydd y lle. Ond o bryd i'w gilydd, mae golygfeydd a synau rhyfedd yn tarfu ar y cyfan. Yma mae hebogiaid yn hela ond bydd hofrenyddion weithiau'n gwmni iddynt; bydd hebogiaid tramor a Chinooks yn ymddangos ac yn diflannu, yn hedfan ac yn codi, yn disgyn ac yn hela, yn patrolio, yn ymosod ac yn cilio. Mae rhu sydyn y Chinook yn cleisio'r awyr, yn byddaru'r clyw, a thrwst ffyrnig y llafn yn chwalu goleuni clir yr aber.[2]

Mae barddoniaeth rhyfel wastad wedi cynnig safbwynt cymhleth ynghylch y berthynas rhwng rhyfel â chysyniadau o gartref, ynghyd â'r berthynas rhwng teithio a symud â chysyniadau o berthyn. Fodd bynnag, byddaf yn dadlau bod yr arfer o osod rhyfel *ar ben* tirlun ein cartref yn dod yn fwyfwy amlwg ym marddoniaeth ddiweddar Cymru ac America yn yr unfed ganrif ar hugain.

## GWILYM WILLIAMS (PENYBONT, SIR GÂR) Y RHYFEL MAWR
## Cofio bardd rhyfel mewn bywyd bob dydd

Yn gyntaf, dyma'ch cyflwyno i olygfa anhynod mewn pentref bychan yn y gorllewin. Mae carreg goffa ddu yn sefyll ar ael bryn, ger capel mewn pentref bychan yn Sir Gâr. Fe welwch yr un olygfa mewn cannoedd o bentrefi tebyg drwy Gymru. Ceir ffens o amgylch y gofeb hon ym mhentref Pen-y-Bont, ger Trelech, ac mae'n rhaid camu drwy

giât fechan i'w chyrraedd. Ar ôl yr ysgol Sul, byddai plant yn herio'i gilydd i gerdded o amgylch y gofeb, sy'n sefyll ger dibyn serth. Mae'r groes yn coffáu tri gŵr lleol a laddwyd yn y Rhyfel Mawr: y Preifat David Harries, y Preifat David Davies a'r Is-lefftenant Gwilym Williams. O fferm leol Nant-yr-Afr yr hanai Williams, a oedd yn fardd addawol ac wedi graddio o Adran y Gymraeg yn Aberystwyth. Enillodd sawl cadair eisteddfodol, gan gynnwys Cadair Eisteddfod y Brifysgol yn 1912 am ei bryddest 'Gwanwyn Bywyd'.

Ar ôl graddio, dysgodd Williams yn y Drenewydd ac yn Walsall ger Birmingham. Ymunodd â'r fyddin ym mis Gorffennaf 1915, ac fe'i gwnaed yn is-gapten yn 17eg Bataliwn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Fis Mai 1916, roedd Gwilym yn Fauquissart. Fe'i hanafwyd gan fwled ar 20 Mai, a bu farw'r diwrnod canlynol yn yr ysbyty yn Merville. Claddwyd Williams ym Mynwent Merville ar 22 Mai 1916. Roedd yn chwech ar hugain oed.

Nid yn annhebyg i Hedd Wyn (Ellis Evans), ar ôl marwolaeth Williams, casglwyd ei farddoniaeth a'i chyhoeddi mewn cyfrol, a honno wedi'i golygu gan John Williams, ei frawd. Prin yw'r sylw a roddwyd i'r gyfrol hon, *Dan Yr Helyg* (1917), sy'n cynnwys englynion, caneuon a phryddestau, ynghyd ag ysgrifau.[3] Mae *Gwladgarwch*, sy'n ddarn hir, ac yn anffodus yn anorffenedig, yn dangos peth tebygrwydd rhwng Cymru a Gwlad Belg. Yn y darnau isod, mae'r bardd yn creu cysylltiad rhwng brwydr Gwlad Belg am oroesiad a rhyddid a breuddwyd Cymru am hunanbenderfyniad gwleidyddol. Ceir perthynas agos rhwng y cysyniad o gartref a maes y frwydr:

Gwell nag anrheg aur y treisiwr
Ydoedd rhyddid ganddi hi,
Dyna bechod Belgium fechan,
Dyna'i bythol fri.

Mae cynhaeaf arall weithion,
Ar dy feysydd Belgium brudd,
A pheiriannau Mawrth yn rhuo–
'N lladd bob nos, bob dydd

Gwell nag anrheg ydoedd rhyddid
gan ei dewrion gwladgar hi.

Dyna cododd gwrando Cymru
I anfarwol fri.

Ym marddoniaeth Williams, ceir ymdeimlad amlwg o hiraethu am y filltir sgwâr, a chyflwynir y gymuned a'r tirlun lleol fel pethau sy'n rhoi cysur iddo yn ei waith. Mae'r rhyfel byd y tu allan i'r gofod delfrydol hwn; bron ei fod yn anghysbell. Roedd y beirdd rhamantaidd a cherddi natur Wordsworth yn enwedig yn ddylanwad ar Williams. Mae barddoniaeth *Dan Yr Helyg* yn creu tirlun Cymreig dihalog, rhywle i encilio iddo ac iachau ynddo. Mewn ysgrif-ddarlith yn y gyfrol '*Natur Fel Cyfrwng Diwylliant*', mae Williams yn pwysleisio sut y mae'r byd byw yn cynnig gwersi mewn gostyngeiddrwydd, doethineb ac anhunanoldeb, yn ogystal â rhoi lloches i'r meddwl. Dyma ddarn o '*Natur Fel Cyfrwng Diwylliant':*

> Dysg Natur i ni, nid yn unig wybodaeth, ond doethineb hefyd. Perthyn balchder i wybodaeth, ond gostyngeiddrwydd a berthyn i ddoethineb. Rhaid i ddyn wrth y ddau cyn y byddo'n gryf a diogel. … Os am ehangder, mawredd, a dwyster enaid, os am dyfu mewn cydymdeimlad, mwynder a hunanaberth, rhaid cymeryd Natur fel athrawes.

HEDD WYN (Ellis Evans): Barddoniaeth a'r Gymuned

Yn aml, fel bugail o fardd y meddylir am Hedd Wyn (Ellis Evans); nid oes ond angen edrych ar deitl ei gyfrol goffa, *Cerddi'r Bugail,* am brawf o hynny. Magwyd Evans pan oedd i farddoniaeth swyddogaeth gymunedol. Ac nid yn unig yn yr eisteddfodau lleol a chenedlaethol ac mewn diwylliant crefyddol y gwelid hynny; canodd Hedd Wyn i nifer o benblwyddi a phriodasau. Wrth i'r rhyfel fwrw gwraidd, canfu'i hun yn cyfansoddi marwnadau ar gais teuluoedd yn Nhrawsfynydd a'r cylch. Roedd y cerddi hyn hefyd yn gyfle i ddangos cydymdeimlad a galar. Englynion yn aml fyddai'r cerddi hyn. Gan ddefnyddio'r mesur cynganeddol, byr hwn, mae Evans yn ceisio cyplysu traddodiad barddol â rhyfel modern iawn.

Byddwn hefyd yn dadlau ei fod yn fwriadol yn ceisio defnyddio traddodiadau diwylliant Cymreig i godi cwestiynau am draddodiad 'newydd' militariaeth fodern. Mae ymdeimlad o syrffed cynyddol, hyd yn oed os yw hwnnw o dan y wyneb, yn y gweithiau

hyn. Fel bardd, roedd mewn sefyllfa anodd, ac yntau'n gorfod canu marwnadau a oedd rywsut yn cysuro teuluoedd nad oedd aberth y meibion wedi bod yn ofer.

Roedd un o'i farwnadau enwocaf, 'Marw Oddi Cartref', i'r Corporal Robert Hughes, Fronwynion, Trawsfynydd. Ni fu farw Hughes ar faes y gad, ond yn hytrach yng ngwersyll Alesbury. Roedd wedi priodi ddwy wythnos ynghynt. Cerdd mewn papur newydd oedd hon, a gyhoeddwyd ar 29 Ionawr 1916 yn y *Rhedegydd*. Yn y gerdd hon gallwn weld dicter Evans at y colli bywyd di-ben-draw ac annirnadwy, at ddadleoli milwr Cymreig a dynnwyd o'i gymuned glos, ac at golli gobaith. Mae'r gerdd yn myfyrio am ddiwydiannu marwolaeth drwy beiriant lladd anferth. Yn dra phwysig, mae hefyd yn rhoi'i her ei hun i unrhyw uchelgais am goffâd bythol. Yn hyn o beth, gall rhywun feddwl am Siegfried Sassoon a'i gerdd 'On Passing the New Menin Gate' ('this sepulchre of crime'), sy'n collfarnu ymdrechion i goffáu. Nid yw Evans yn galw am gofebau mawreddog; yn hytrach mae'n awgrymu y dylai byd natur feddiannu ac ailhawlio beddau'r meirw.

Marw Oddi Cartref (detholiad)

Mae beddrod ei fam yn Nhrawsfynydd,
Cynefin y gwynt a'r glaw,
Ac yntau ynghwsg ar obennydd
Ym mynwent yr estron draw.

*    *.    *.    *

Bu farw a'r byd yn ei drafferth
Yng nghanol y rhyfel mawr:
Bu farw mor ifanc a phrydferth
A chwmwl yn nwylo'r wawr.

Ni ddaw gyda'r hafau melynion
Byth mwy i'w ardal am dro;
Cans mynwent sy'n nhiroedd yr estron
Ac yntau ynghwsg yn ei gro.

Ac weithian yn erw y marw
Caed yntau huno mewn hedd;
Boed adain y nef dros ei weddw,
A dail a rhos dros ei fedd

Francis Ledwidge – Mannau Coffáu (o'r Bardd Bugeiliol i'r Bardd Rhyfel)

Yn Iwerddon, Ellis Evans yw'r bardd a gafodd ei ladd ar yr un diwrnod â Francis Ledwidge (y gwrthwyneb, wrth gwrs, sy'n wir yng Nghymru). Bu farw'r ddau fardd yn Fflandrys ar yr un diwrnod, sef 31 Gorffennaf 1917, ychydig gannoedd o lathenni oddi wrth ei gilydd. Gwasanaethodd Ledwidge mewn tair theatr ryfel, sef Gallipoli,

Macedonia a Fflandrys/y ffrynt Gorllewinol. Roedd ei gyfrol gyntaf, *Songs of the Fields* (1915), yn deyrnged i Slane, ei dref enedigol yn Nyffryn Boyne, ac mae'n llawn themâu sy'n ymwneud â chariad a byd natur. Mae ynddi hefyd gadwyn o gerddi sydd wedi'u dylanwadu gan chwedloniaeth Iwerddon. Fel yn achos Hedd Wyn, ceir ymdeimlad cryf o'r botanegydd yn ei farddoniaeth, ac ymdeimlad o berthyn, dosbarth a chymuned.

Prin y byddai Ledwidge yn crwydro oddi wrth y bugeiliol. Dyna pam y cyfeirir ato fel 'bardd y Mwyalchod', enw a ddeilliodd o rai o'i gerddi cynnar enwocaf, 'Behind the Closed Eye' a 'The Blackbird'. Mae hyd yn oed ei gerddi cariad a rhyfel yn cynnwys nifer o elfennau sy'n ymwneud â'r tirlun a chefn gwlad. Cafodd y ddwy gyfrol a gyhoeddwyd wedi'i farwolaeth, *Songs of Peace* (1917) a *Last Songs* (1918), eu golygu gan yr Arglwydd Dunsany, ei noddwr. Yn y cyfrolau hyn, mae'n rhoi sylw mwy uniongyrchol i ryfela. Hyd yn oed os oedd hynny'n anuniongyrchol, byddai'n aml yn myfyrio am ryfel byd-eang.

Golygwyd un o gerddi hwyr enwocaf Ledwidge, 'Soliloquy', yn geidwadol cyn ei chyhoeddi wedi'i farwolaeth. I bob diben, newidiodd y golygydd ergyd y gerdd ryfel hon. Drwy docio llinell olaf y gerdd, newidiwyd ei chyd-destun a'i gwleidyddiaeth, ynghyd â'r modd y câi'r bardd ei weld gan bobl. Diolch byth, mae'r llinell olaf chwerw (mewn italig isod) wedi'i hailosod yn ddiweddar ac wedi'i harysgrifo ar y gofeb i Ledwidge yn Artillery Wood, Ypres. Mae ei hail-gynnwys yn rhoi ffyrnigrwydd i'r gerdd ac i lais y bardd:

And now I'm drinking wine in France,
The helpless child of circumstance.
To-morrow will be loud with war,
How will I be accounted for?
It is too late now to retrieve
A fallen dream, too late to grieve
A name unmade, but not too late
To thank the gods for what is great;
A keen-edged sword, a soldier's heart,
Is greater than a poet's art.
And greater than a poet's fame
A little grave that has no name.

*Whence honour turns away in shame*

## Cymhlethdod Daearyddol / Cymhlethdod Amserol – Ble mae dod o hyd i farddoniaeth rhyfel Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain?

Ble'n wir y mae dod o hyd i farddoniaeth rhyfel yn yr unfed ganrif ar hugain? Mae datganoli gwleidyddol yng Nghymru, a'r nod cysylltiedig o greu hunaniaeth unedig, yn dod yn fater dyrys a chymhleth unwaith y bydd rhywun yn ystyried perthynas Cymru â byddin Prydain. Dylid nodi bod y broses ddatganoli yng Nghymru wedi cydredeg ag ymgyrchoedd milwrol Prydeinig o bwys yn Irac (2003–11) ac Affganistan (2001-2014). At hynny, mae cyfranogiad y Cymry at luoedd arfog Prydain a'r broses o'u recriwtio, wrth edrych ar y Deyrnas Unedig yn ehangach, wedi bod yn anghymesur. Yn 2006, dangosodd Chris Bryant, Aelod Seneddol y Rhondda, sut yr oedd Cymru wedi cyfrannu 9 y cant o luoedd arfog y Deyrnas Unedig er nad oedd ond yn gyfrifol am 6 y cant o'r boblogaeth. [4]

Mae absenoldeb unrhyw farddoniaeth uniongyrchol amlwg gan gyn-filwyr o Gymru yn nodedig. I unrhyw gyn-filwr cyfoes o Gymru, gyda'r cyfryngau cymdeithasol yn hollbresennol ac yn rhoi cyfle i gyflwyno pethau yn y fan a'r lle (a chael cynulleidfa ymatebol), gellid dadlau bod ysgrifennu unrhyw 'farddoniaeth milwyr' o'r fath yn anachroniaeth ddiwylliannol, heb ddechrau sôn am gymhlethdod dod o hyd i'r strwythurau cefnogi angenrheidiol wrth ddychwelyd 'gartref'. Yn yr Unol Daleithiau, fodd bynnag, mae grwpiau ysgrifennu proffesiynol yn bodoli'n aml i gyn-filwyr.[5] Wrth gwrs, mae cyn-filwyr wedi cyfrannu at flodeugerddi gan awduron niferus, fel yr un a gyhoeddwyd yn 2011 i gefnogi'r elusen Combat Stress, *Enduring Freedom*: *An Afghan Anthology*. Cyfrol yw hon sy'n cofio'r ymgyrch yn Affganistan rhwng 2001 a 2011 – ond mae'n nodedig nad yw lleisiau cyn-filwyr cyfoes o Gymru yn arbennig o amlwg ynddi.[6]

Dyma droi felly at feirdd rhyfel amlycaf Cymru mewn bywyd sifil, sef Owen Sheers a Robert Minhinnick. Drwy gyfweld â chyn-filwyr, mae Sheers yn ceisio cofnodi eu taith gartref o'r rhyfel, tra bo Minhinnick yn creu darluniau niferus o dirlun Cymru drwy waddol y ddau ryfel yn Irac. [7]

Owen Sheers a Lleisiau Cyn-filwyr

I ddechrau, rhaid darllen cofnod Owen Sheers o brofiadau rhyfel law yn llaw â'r anhawster a geir wrth ddod o hyd i leisiau cyn-filwyr o Gymru yn gyhoeddus, neu ddiffyg amlygrwydd y lleisiau hynny. Mae Sheers wedi gweithio â thystiolaeth ac atgofion cyn-filwyr o Brydain yn ei ddrama *The Two Worlds of Charlie F.* (2012) (drama a gafodd ei chreu gan filwyr clwyfedig, a hwy hefyd yw'r actorion ynddi).[8]

Mae'r syniad o ddychwelyd gartref – taith yn ôl sy'n ganolog i'r rhan fwyaf o lenyddiaeth cyn-filwyr yr ugeinfed ganrif sy'n ysgrifennu yn yr unfed ganrif ar hugain – ar ei fwyaf dwys yn y gwaith hwn. Yn *The Two Worlds of Charlie F.*, mae Charlie, y prif gymeriad, yn trafod y dryswch a'r anawsterau corfforol a meddyliol y mae'n eu profi ar ôl cael gofal meddygol wrth deithio yn ôl ar frys i'r Deyrnas Unedig. Mae'n cymharu profiad milwyr yr unfed ganrif ar hugain i brofiadau cyn-filwyr clwyfedig a anafwyd mewn rhyfeloedd blaenorol:

> When British soldiers were wounded in the Napoleonic wars it took them months to get home, if they did. In World War One a fortnight at least. World War Two, about the same from France, much longer from India, Egypt, Burma.
>
> Now? Medevaced from Nad Ali north to Bastion in twenty minutes, back in the UK in twelve, thirteen hours tops. But in here –
>
> *He taps his head.*
>
> Even quicker than that. Pretty much insta-fucking-taneous. Blink-of-an-eye kinda stuff. With a few weeks' high-definition hallucinations thrown in for free.

Mewn cyfweliadau, mae Sheers wedi crybwyll i'r gyfrol ddiweddarach o farddoniaeth, *Pink Mist* (2013), ddeillio o ymdeimlad bod ganddo nifer o straeon o hyd i'w hadrodd, nad oedd wedi cael sylw eto.[9] O ganlyniad, mae'n glir bod Sheers yn cyflwyno'i waith fel cofnod ac fel modd o roi llais i brofiadau cyn-filwyr.[10] Mae'r gwaith hwn yn cynnig safbwyntiau ar effaith Rhyfel Affganistan ar gyn-filwyr a'u teuluoedd. Mae *Pink Mist* yn defnyddio tirwedd Bryste i edrych ar brofiadau tri o gyn-filwyr Rhyfel Affganistan: Hads, Taff ac Arthur. Wrth 'ddychwelyd', mae'r profiadau o drawma a gawsant yn dod i'r amlwg drachefn: Mae Hads wedi colli dau o aelodau'i gorff a Taff wedi goroesi bom. Dysgwn fod y naill a'r llall yn dioddef o Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD).

Wrth i'r testun barddonol fwrw yn ei flaen, dyma ddarganfod bod Arthur, yr adroddwr hollwybodus, wedi'i ladd ei hun. Yn fwyaf penodol, fodd bynnag, mae *Pink Mist* yn gyfrol sy'n canolbwyntio ar brosesau adfer yn hytrach na gwrthwynebu gweithredu

milwrol ynddo'i hun. Gan hynny, mae'r Capten Ed Poynter, o C Cwmni 2 y Reifflau, yn cael ei ddyfynnu yn y rhagarweiniad i'r llyfr yn dweud bod y gyfrol yn 'dal realiti goblygiadau addasu i "normalrwydd" wrth i rywun ddychwelyd gartref o ryfel'*.

Yn ddaearyddol, mae'r cysyniadau o 'gartref' yn cael eu cyflwyno'n wreiddiol ar ffurf Bryste; ceir cyfeiriadau niferus at ddiwylliant y stryd ym Mryste, fel y darlun o fedelwr bygythiol yr artist Banksy ar ochr clwb nos The Thekla. Ceir hefyd gyfeiriadau at 'dub step' ac artistiaid 'trip-hop' sy'n gysylltiedig â'r ddinas (fel Portishead, Tricky a Massive Attack). Er mai ym Mryste y mae'r testun wedi'i leoli, ceir cyfeiriadau hefyd at Gymru, a'r amlycaf o'r rheini yw'r cymeriad Taff a'r sôn am Afon Hafren fel ffin ddaearyddol. Yn fwy na hynny, mae Sheers yn awyddus i'w waith berthyn i waith llinach o awduron sydd â chysylltiad â Chymru a barddoniaeth rhyfel. Dywed ei fod wedi dymuno 'ysgrifennu fel rhan o draddodiad Prydeinig o farddoniaeth am wrthdaro – o'r *Gododdin,* i Wilfred Owen, ac yn fwyaf arwyddocaol o bosibl, David Jones'*.[11]

Archif dros dro yn unig sydd wedi'i gadael i weddwon milwyr yn *Pink Mist*. Y dogfennau mwyaf sylweddol y mae Arthur wedi'u gadael yw fideos ar ei ffôn, a'r negeseuon na all eu dileu. Mae'r broses o guradu atgofion rhywun yn rhywbeth bregus iawn i'w wneud, ond mae Sheers yn rhoi ffordd gyfoes inni o ddogfennu bywydau'r meirw. Ac mae agoriad *Pink Mist* yn camu yn ôl mewn ffordd ryfedd drwy amser, drwy broses o dyfu ar y cyfryngau cymdeithasol, wrth i Arthur, un o'r milwyr, ein gwahodd i wneud y canlynol:

> Friend us on Facebook and you'll soon see
> how quick our profile shots scroll back
> from battledress to uniform,
> from webbing to sports bag,
> from ration pack to lunch box
> from out there to back here.

## ROBERT MINHINNICK A RHYFEL(OEDD) IRAC

Mae Robert Minhinnick yn y gorffennol wedi edrych ar y defnydd o wraniwm diffygiol i gynhyrchu arfau i ymosod ar Irac yn ystod Rhyfel y Gwlff yn 1990–1, yn ogystal ag ymchwilio i brofiadau cyn-filwyr o Anhwylder Straen Wedi Trawma.[12] At hynny, mae cyfrol ryddiaith Minhinnick, *To Babel and Back* (2005), yn cynnwys ysgrifau sy'n cofnodi cyfnod a dreuliodd yn Irac ar ôl Rhyfel y Gwlff.

Yn y gerdd 'An Isotope, Dreaming', o *King Driftwood* (2008)[13], mae'r bardd yn cyfuno iaith wyddonol â myfyrion am ei dref gartref (Porthcawl), yn ogystal ag â naratifau sy'n crybwyll cost ddynol y rhyfel yn Irac. Mae gwastraff niwclear ac ymbelydredd yn gyfryngau diniwed a niweidiol ill dau yn y gerdd, gan ddangos sut y lledaenir syniadau, genedigaeth ieithoedd, gweithredoedd sy'n ymwneud â symud ac â'r byd ysbrydol, ynghyd ag entropi a dinistr. Yn ne Cymru y dechreua 'An Isotope, Dreaming', ond mae'r isotop ymbelydrol yn symud y tu hwnt i'r 'iron womb of Sellafield', y 'cubist monument of Trawsfynydd', a'r 'accelerator tunnel at Berkeley', er mwyn mynd ar dair taith. Mae'r gyntaf i le dienw lle mae'r 'geiger talk / like a black habanero rattling with seeds'; mae'r ail i Basra yn Irac a dinas-wladwriaethau hynafol Ninife a Babilon; tra bo'r drydedd daith yn ymweld â Belarws ac yn edrych ar yr hyn a ddigwyddodd yn Chernobyl.

Mae Minhinnick hefyd yn chwilio am gysylltiadau, am rywbeth sy'n uno cymunedau. Fodd bynnag, nid naratif uniongyrchol na chronicl o wahanol achosion o wrthdaro a geir yn ei farddoniaeth. Ceir elfen hefyd o gydamseredd yn y gerdd wrth iddi ailddehongli ac ailymweld â digwyddiadau'r gorffennol. Gan hynny, mae'r darllenydd yn wynebu'r Blitz yn Abertawe yn ystod yr Ail Ryfel Byd o safbwynt amser newydd:

> Now Swansea is burning again,
> its sky the stained glass in the Brangwyn Hall.
>
> The epicentre is Green Dragon Lane,
>         and as the Guildhall
> melts its limestone lifts
>         like lingerie

Yn gryno, nid yw barddoniaeth Minhinnick yn rhoi un safbwynt unigol, hollwybodus o'r ddau ryfel yn Irac. Mae ffurf y darn yn deillio o'r lleisiau gwahanol sy'n ymddangos, ynghyd â'r atal, y perfformiad gweledol, yr ailadrodd a'r geiriau moel, a momentwm yr ymbelydredd. Yn sgil hynny, mae'r bardd yn ein dwyn ar daith.

Mae barddoniaeth Minhinnick yn creu perthynas ddynamig rhwng y lleol a'r byd-eang. Fodd bynnag, mae'r cysyniad o gartref yn *King Driftwood* gan Minhinnick yn aml yn cyfleu dieithrwch dwys, ble daw pethau bob dydd yn bethau bygythiol, fel yn y gerdd

‘St John’s Sunflowers’. Mae’r blodau haul ynddi yn cael eu cyflwyno fel tystion moesegol; maent yn hanfodol ‘dda’ ac yn perthyn i’r ddemocratiaeth honno sy’n gorwedd y tu hwnt i hierarchiaeth grym. Eto i gyd, wrth edrych ar y blodau haul yn ei randir ym Mhorthcawl, mae’r bardd yn dangos sut y mae peirianwaith rhyfel yn amharu ar ymwybyddiaeth unigolion. Disgrifir y blodau haul mewn termau milwrol: maent yn ‘Safe in their silos’, meddai. Dywed: ‘No warhead gleamed so brightly’. Yn wir, mae Minhinnick yn creu byd sydd wedi troi’n anghyfarwydd, lle caiff hyd yn oed y blodau haul diniwed eu cyflwyno mewn termau gwenwynig: ‘In Babylon the sunflowers / are yellow as uranium’.

Wrth i’r gerdd ddatblygu, mae Irac yn cydfodoli â thirlun Cymru, a daw’r blodau haul yn fwy na phethau hardd sy’n rhoi lliw i randir. Mae iaith ysgrifenedig yn deor ohonynt: ‘[they] ferment the words / themselves’. Drwy gyflwyno’r blodyn haul fel ffynhonnell pob iaith (ac yn sgil hynny, mae rhywun yn rhagdybio, fel ffynhonnell pob gwybodaeth hefyd), dyna ysgogi trais ymhlith y torfeydd mawr:

> They cut open the St John’s sunflowers
> and saw there was nothing to be done.
> But the crowd demands the heads, the hearts,
> as the crowd demands the medicines and the missiles
> that will make us brave.

Yn y foment hon, mae’r gerdd yn dwyn i gof y fideos o ddienyddio gwystlon sydd wedi ymddangos ar y we a’r cyfryngau eraill ers lledaenu’r fideo o ddienyddiad Daniel Pearl, gohebydd y *Wall Street Journal*, yn 2002. Mae Minhinnick yn dod â gwahanol gynyrfiadau dwy dorf sy’n ymddangosiadol groes i’w gilydd i’r amlwg: mae un yn deisyfu ymddarostyngiad llwyr (‘the heads, the heart’), a’r llall yn deisyfu dialedd a chymorth dyngarol. Yn goeglyd, mae’r gerdd yn awgrymu mai dim ond drwy ddiplomyddiaeth sydd wedi’i *ariannu* (‘the medicines and the missiles’) y mae grymoedd y Gorllewin yn troi’n ddewr. Ar ddiwedd ‘St John’s Sunflowers’, mae Minhinnick wedyn yn ailgyflwyno cymhlethdod byw mewn Cymru ddatganoledig sydd yn rhan o ryfel yn Affganistan ac Irac. Fe’n gadewir â’r ymdeimlad o aberthu gwaed, wrth i goesynnau’r blodau haul gael eu gosod mewn gofod amwys, sydd o bosibl yn fygythiol: ‘of dark and glittering things / that we call home’.

CASGLIAD: Juliana Spahr ac Ecosystemau Rhyfel

Wrth edrych ar yr uchod, rwyf wedi ceisio dangos sut y gallwn leoli barddoniaeth rhyfel, ei pherthynas â chysyniadau o gartref, a sut y mae'r nodweddion hyn yn newid wrth edrych ar farddoniaeth y Rhyfel Mawr a barddoniaeth rhyfel gyfoes. Yn olaf, mae angen inni fyfyrio ar y cwestiwn sylfaenol hwnnw – ble mae rhyfel a sut y mae rhyfel yn effeithio ar bethau bob dydd?

Rwy'n cloi gyda llais benywaidd hynod o fywyd sifil: y bardd Americanaidd Juliana Spahr a'i chyfrol *this connection of everyone with lungs* (2005). Mae'r gyfrol yn cynnwys dwy gerdd hir a ysgrifennwyd mewn ymateb i ymosodiadau 9-11 a'r rhyfel dilynol yn Irac. Enw'r gerdd gyntaf yn syml yw 'poem written after september 11, 2001' ac enw'r ail yw 'poem written from november 30, 2002 to March 27, 2003'. Cerddi teimladwy ac epistolaidd yw'r rhain yn cyfeirio at ddau gariad neu'r hyn y mae'n eu galw yn 'beloveds'. Mae Spahr yn cyfuno gwybodaeth ffeithiol â chanu telynegol a myfyrio preifat. Mae ffurfiau gwahanol iawn ar wybodaeth yn dod i gyswllt â'i gilydd yn y gyfrol, o sylwadau am newid yn yr hinsawdd a data am ryfel Irac, i wybodaeth am weld sêr enwog fel Winona Ryder, Fat Boy Slim, Zoë Ball, David Letterman a Roman Polanski.

A honno wedi'i chreu'n wreiddiol fel ymateb i ymyrryd llywodraeth yr Unol Daleithiau yn Irac, mae cerdd Spahr, 'poem written from november 30, 2002 to March 27, 2003', yn darlunio pwysau dwys dros ben i roi ffurf i wybodaeth am y rhyfel. Roedd Spahr yn byw yn Hawaii ar y pryd, a cheir dyddiad unigol ar gyfer pob adran gydgysylltiedig. Mae bywyd gwyllt tirlun Hawaii yn ymddangos yng nghanol y myfyrion am ryfel. Dywed Spahr yn ei nodiadau i *this connection of everyone with lungs:*

> Teimlwn fod yn rhaid imi feddwl am yr hyn yr oedd gen i gysylltiad ag o, a'r hyn yr oeddwn i'n cydymffurfio ag o, gan fy mod yn byw oddi ar elw y byd milwrol-ddiwydiannol ar ynys fechan. Roedd yn rhaid imi feddwl am ba mor agos oeddwn at bethau na fyddwn yn dymuno bod yn agos atyn nhw, er (neu oherwydd) fy mod yn bell iawn o'r pethau hynny i gyd yn ddaearyddol.*

Nid yn unig y mae Spahr yn chwilio am y cysylltiadau sy'n dwyn cymunedau ynghyd, ond mae hefyd yn ceisio dangos sut y mae peirianwaith rhyfel yn meddiannu'r amgylchedd. Mae'r adroddwr yn dangos sut y mae statws Hawaii fel canolfan filwrol yn ailddiffinio ecoleg yr ynys:

And because the planes flew overhead when we spoke of the cries
of birds our every word was an awkward squawk that meant also
AH-64 Apache attack helicopter, UH-60 Black Hawk troop helicopter.

Efallai y gallwn oedi yma i feddwl am sut y mae arfau a'r tirlun yn ein gwlad ein hunain yn cyd-fodoli. Yn wir, nid oes un ateb syml, rhwydd i'm cwestiwn amhosibl o gyffredinol, 'Ble mae barddoniaeth rhyfel?'. Cawn ein hatgoffa o wersyll y fyddin ym Mronaber, dafliad carreg o Drawsfynydd Hedd Wyn, a hwnnw'n cynnwys maes tanio. Cafodd y gymuned ei chorddi gan y maes ymarfer pan ddinistriwyd capel lleol Penystryd gan rym y gynnau ar 31 Gorffennaf 2014.

Gan edrych ar dirlun gorllewin Cymru yn ystod fy mhlentyndod, efallai fy mod yn ymwybodol o arwyddion rhyfel mewn nifer o'r llefydd hyn. Y cwmni preifat *QinetiQ* sydd bellach yn profi arfau i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ym Mhentywyn, ger y traeth lle mae plant yn dal i greu cestyll tywod a lle torrodd J.G. Parry-Thomas unwaith record tir y byd am gyflymder.[14] Mae ymffrost *QinetiQ* fod ym Mhentywyn 'drac profi 1500 metr o hyd'[15] yn golygu bod y lle yn llawn arwyddion sy'n rhybuddio'r cyhoedd: 'RISK OF EXPOLOSION- UNUSUAL OBJECTS FOUND ON THE BEACH MUST NOT BE TOUCHED'.

Gan adlewyrchu'r teimlad yn narluniau dieithr Osmond o dirlun y gorllewin yn *Hawk and Helicopter*, rhaid inni gydnabod bod rhywbeth aflonydd a chyfannol yn deillio o ddarllen yr arwyddion hyn. Mae'r rhybuddion ar draeth Pentywyn yn creu ymdeimlad gofidus o'r ymwneud rhwng peiriannau milwrol ac arferion hamdden pobl, tirlun y Weinyddiaeth Amddiffyn a milwriaeth ormesol. Gwaith unrhyw fardd cyfoes nad yw'n filwr yw edrych ar y berthynas gymhleth rhwng tirluniau gartref a diwydiannau rhyfel, ac ar sut y gorfodir y gofodau hyn i gydfodoli.

Nerys Williams, Chwefror 2019<br>*Cyfieithiadau Llenyddiaeth Cymru

---

[1] Gweler gwefan Oriel Mission https://www.missiongallery.co.uk/exhibitions/hawk-and-helicopter/
[2] Osi Rhys Osmond https://www.missiongallery.co.uk/exhibitions/hawk-and-helicopter/

[3]Nid yw'r gyfrol hon wedi'i digideiddio; gellir ei gweld fan hyn https://cymru1914.org/en/view/manuscripts/3698716/6
[4] Gweler y datganiad gan Chris Bryant mewn ymateb i gwestiwn 63 yn: House of Commons Welsh Affairs Committee, *Future of RAF St Athan*, Fourth Report of Session 2005–06 (Llundain: Tŷ'r Cyffredin), Ev. 19, <http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200506/cmselect/cmwelaf/1129/1129.pdf>, Darllenwyd 15 Ebrill 2019. <http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200506/cmselect/cmwelaf/1129/1129.pdf>, Darllenwyd 17 Rhagfyr 2015.

[5] Does ond angen ystyried portffolio a gwaith grwpiau yn yr Unol Daleithiau fel: *Veterans Writing Project* <http://veteranswriting.org> a ddarllenwyd ar 15 Ebrill 2019 a *The Telling Project* <http://thetellingproject.org> a ddarllenwyd ar 15 Ebrill 2019.

[6] Ryan Gearing, gol., *Enduring Freedom: An Afghan Anthology: Commemorating Operations in Afghanistan 2001–2011* (Brighton: FireStep, 2011).

[7] I weld holl gymhlethdod fy ymchwil i brofiad cyn-filwyr rhyfel o Gymru mewn barddoniaeth, gweler Nerys Williams 'After Before: Finding Welsh War Poetry' yn *Devolutionary Readings: English-Language Poetry and Contemporary Wales* gol. Matt Jarvis (Rhydychen: Peter Lang, 2017) tt. 157-82.

Yma, rwyf hefyd yn cydnabod y gwaith pwysig sy'n cael ei wneud gan *Re: Live Theatre* yng Nghaerdydd gyda chyn-filwyr sy'n perfformio eu profiadau drwy ddrama. Gweler yn benodol *Y Dychweliad*/ *Coming Home* http://www.re-live.org.uk/coming-home Darllenwyd 15 Ebrill 2019.

[8] Owen Sheers, *The Two Worlds of Charlie F*. (Llundain: Faber, 2012).

[9] Carl Griffin, 'Poetry Interview: Owen Sheers', *Wales Arts Review*, 11 Mehefin 2013 <http://www.walesartsreview.org/poetry-interview-owen-sheers/> Darllenwyd 13 Awst 2015.

[10] Sheers, *Pink Mist* (Llundain: Faber, 2013).

[11] Griffin, 'Poetry Interview: Owen Sheers'.

[12] I gael rhagor o wybodaeth am ymchwil Minhinnick i wraniwm diffygiol, gweler Robert Minhinnick, *To Babel and Back* (Pen-y-bont ar Ogwr: Seren, 2005).

[13] Robert Minhinnick, *King Driftwood* (Manceinion: Carcanet, 2008)

[14] Gweler gwefan QinetiQ '[Pendine's] natural features, coupled with today's infrastructure and expertise, mean that the site continues to provide a key MOD facility for test, evaluation and training support activities. The Range is divided into three geographical sections; West, Central and East. The facilities in the different areas vary considerably, but most consist of prepared, safe areas with permanent buildings and power supplies. Staff and equipment are moved between the ranges as required by the schedule of work. Pendine's Long Test Track (LTT) facility, suitable for high-speed dynamic trials, is unique in the UK'. https://pendine.qinetiq.com/about/index.aspx

[15] Mae Pentywyn yn ymddangos yn fideo recriwtio graddedigion QinetiQ https://www.gradcracker.com/hub/137/qinetiq/videos/2134/weapons-and-land